Cyngor Cymuned Llanfihangel y Pennant a gynhaliwyd yng Nghanolfan Gymunedol Abergynolwyn, Nos Lun 9th Mai, 2016 am 7.00 o'r gloch ar ol y Cyfarfod Blynyddol.

Presennol: Gadeirydd Wendy Whitby, Is Gadeirydd Eleri Puw, H.E. Thompson, Gareth Evans, Clare Crowley, Elwyn Evans, Robert Jones Dylan Davies, Cynghorwr Gwynedd Beth Lawton a'r clerc Eileen Jones.

Ymddiheuriad:

Datgan Diddordeb: Cyng. W Whitby ac Elwyn Evans(mynwent)

Croeshawyd pawb gan y Cadeirydd.

Derbyniwyd cofnodion Ebrill a'u llofnodi gan y Cadeirydd

1. Cae Chwarae: Cafwyd adroddiadau da a chanmoliadwy ar ol y gwaith paentio, Pasiwyd i dalu Sean's Lawns. Nodwyd bod gwaith torri gwair yn mynd yn ei flaen tra roedd plant yno. Pasiwyd i dynnu sylw y torrwr gwair at hyn.
2. Mynwent: Y Clerc wedi paratoi arwydd newydd i roi ar gatiau y mynwentydd, derbynwyd, Pasiwyd i dalu Paul Cook am agor bedd. A talu Seans Lawns.
3. Llwybrau: Nodwyd bod canllaw Tynyfach – Llechwedd Nant yr Eira wedi cael sylw.
4. Adroddiad Cyng. Gwynedd: Nododd bod y Defibrilator wedi cael ei checio. Ni chafwyd gwahoddiad i gyfarfod Bont ar Ddyfi. Gwybodaeth gan y contractwyr, ni fydd "by pass". Pont or Rheilffordd i Bont y millennium. Mi fydd Bont Dyfi yn cau. Nodwyd y dylai bod "roundabout" wrth fynd am Corris. Mi oedd "concern" am llifogydd y ffordd, mi fydd rhaid defnyddio pwmpiau. Nid oedd rhestr pa doiledau oedd yn cau. Diolch Cyng Lawton.
5. Ciosg: dim
6. Penblwydd ein Brenines yn 90deg oed: Pasiwyd i gefnogi y galwad am ddathliad ar y 12fed o Fehefin o 3- 5. Pasiwyd i rhoi rhodd arian o £60,00 at yr achos.
7. Archwiliad Mewnol: Nodwyd y bydd ar 14eg o Fehefin yn Nhywyn.
8. Carnifal: Nodwyd y byddai y rhai canlynol yn fodlon helpu Gareth Wendy, Eileen a holi i Paul Ducros.
9. Ysgol Craig y Deryn: Derbyniwyd llythyr yn holi am enw llywodraethwr o'r ardal. Cynnigiwyd Cyng. Elwyn Evans ac fe dderbyniodd.
10. Un Llais Cymru: Nodwyd bod y Cyfarfod Blynyddol yn Neuadd Pendre 25/05/16 am 7 o'r gloch.
11. Cais Cynllunio: Ol weithredol 12 Tan y Bryn Abergynolwyn wedi ei wrthod.
12. Y Ganolfan: Pasiwyd i dalu am logi am flwyddyn.
13. Hendre: LLanast – Derbyniwyd adroddiad ei fod yn cael ei fonitro a bod dipyn wedi symud oddi yno.
14. Codwyd problem y parcio o Lichfield i lawr heibio Maesymeillion. Cyng G Evans a C Crowley yn fodlon trafod ar heddlu. Diolch iddynt.
15. Taliadau:

Sean's Lawns	£302,40	torri gwair	siec 864
Paul Cook	470.00	agor bedd	865
Cash	60.00	parthed teparti	866
Y Ganolfan	176.00	llogi	867

YMDDIRIEDOLAETH MARI JONES:

Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau bod y cyfrif ar agor.

Derbynwyd arian gan Y Cyng Evans allan o'r bocs pres – £9.13

Pasiwyd i ad dalu costau Blwch Mari Jones i'r Cyngor.

Cyfarfod Nesaf 13eg Mehefin. Cyffredin am 7 o'r gloch